SUT I GREU PALAS HWYL BYCHAN

BETH YDYCH CHI'N MEDDWL, PALAS HWYL BYCHAN?

Rydym yn meddwl bychan iawn!

Mae Palasau Hwyl yn ymwneud â rhannu sgiliau a chreu cysylltiadau lleol. Gallai hynny fod yn llond llaw o bobl sy'n dysgu rhywbeth gan ei gilydd ar bellter cymdeithasol diogel, neu o bell. Neu ...
Gallech greu amserlen sialc ar hyd eich stryd gyda chymdogion, darllen cerdd o'ch ffenest flaen a gwahodd pobl eraill i ddarllen, ysgrifennu eich cerddi eich hunain trwy alw un linell allan yr un. Ffonio rhywun i gyfnewid storïau a gofyn iddynt ffonio rhywun arall. Cyfnewid hadau yn y parc. Dysgu drymio o'ch ffenest flaen. Rydym yn croesawu Palasau Hwyl ar-lein hefyd: darlledu eich tiwtorial gwau ar Facebook Live, casglu eich cerdd a rennir ar Twitter, rhannu arbrofion cemeg lliw ar Instagram i bobl roi cynnig arnynt a rhannu'n ôl (gallwch ddarllen llawer o syniadau ar gyfer Palasau Hwyl rhithwir yma)
Yr hyn sy'n allweddol yw rhannu sgiliau, gwybodaeth, rhywbeth prydferth; a'i fod yn gyhoeddus (byddai'n wych cael pobl sy'n cerdded heibio i gymryd rhan) ac yn creu cysylltiad (trwy annog pobl eraill i wneud yn ogystal â mwynhau beth rydych chi wedi'i wneud).
Os oes gennych leoliad sydd fel arfer yn gartref i ddigwyddiadau mwy sylweddol, newidiwch y ffenestri i oriel gymunedol neu fe allai weithredu fel man gollwng ar gyfer cadwyn gyfnewid.
Os ydych yn amgueddfa, rhowch fenthyg gwrthrychau i bobl eu lletya yn eu ffenestri blaen neu gwahoddwch bobl i arddangos eu gwrthrychau eu hunain neu i'w rhoi benthyg i chi ar gyfer eich ffenestri chi.

Pwy
Chi! Ac, os dymunwch, eich aelwyd, ffrindiau, cydweithwyr, rhai eraill sy'n mynd â'u cŵn am dro, cymdogion ar y grŵp Cyd-gymorth Covid neu WhatsApp. Gall Palas Hwyl bychan fod yn unigol neu gyda thîm bychan. Os ydych yn creu eich Palas Hwyl y tu allan i'ch cartref, cynlluniwch ef trwy sgwrsio ar falconi'r ystâd neu o'ch ffenestri, dros y ffôn, trwy lythyr neu neges.

Beth
Gall eich Palas Hwyl bychan fod beth bynnag rydych eisiau iddo fod. Ers y cyfyngiadau, mae'r gymuned Palasau Hwyl wedi bod yn rhannu Chwyldroadau Cysylltiad Bychain, y gallwn bori trwyddynt am syniadau neu sgroliwch i ddiwedd y ddogfen hon i weld awgrymiadau.

Ble
Unrhyw le y gallwch greu cysylltiad. Os oes gennych ffenestri sy'n wynebu stryd neu gwrt, defnyddiwch ffenestri fel llwyfan, oriel neu ddarllenfa. Defnyddiwch ardal mewn parc, hysbysfwrdd, ffenest siop. Mae Palasau Hwyl dros y ffôn ac ar-lein yn dda hefyd. Gall lleoliadau sydd wedi gorfod cau ddefnyddio ffenestru neu'r pafin.

Pryd

Penwythnos cyntaf mis Hydref (y 3ydd a'r 4ydd). Mae 20 munud yn grêt – cael y stryd i ganu. Mae trwy'r penwythnos yn grêt - arddangosfa o gwmpas y dref o bethau hynaf pawb, gyda thrigolion yn sefyll wrth eu ffenestri neu ddrysau i rannu eu gwrthrychau gyda'r rhai sy'n cerdded heibio.

Pam
Oherwydd y gall creadigrwydd mewn cymunedau newid y byd er gwell, i ddathlu ein gilydd, cofio'r rhai yr ydym wedi'u colli a chysylltu â'n cymdogion.

Sut
Sgroliwch i lawr i Beth Rydw i'n Gwneud Nawr?

SUT GALLWN NI GADW EIN PALAS HWYL YN DDIOGEL YN YSTOD COVID 19?

Gwiriwch y canllawiau a lefelau risg lleol presennol a gwiriwch eto cyn eich digwyddiad, gan fod pethau'n newid yn gyflym. Y canllawiau diweddaraf ar gyfer y DU:
Lloegr: www.gov.uk/coronavirus
Yr Alban: www.gov.scot/coronavirus-covid-19/
Cymru: llyw.cymru/coronafeirws
Gogledd Iwerddon: www.nidirect.gov.uk/campaigns/coronavirus-covid-19
Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd:
www.who.int/emergencies/diseases/novel-coronavirus-2019/advice-for-public

Os yw'r risg yn uchel i chi, crëwch neu cymerwch ran yn y Palasau Hwyl o gartref. Os nad ydych yn wynebu risg uchel eich hun, meddyliwch am ffyrdd y gall pobl sy'n gwarchod eu hunain gysylltu â'ch Palas Hwyl. Mae gennym rai syniadau yma:
https://funpalaces.co.uk/cy/1000-bychain/canllaw-gwarchod/

Rhai hanfodion:
Mae bod yn yr awyr agored yn fwy diogel na dan do, mae ymhellach i ffwrdd yn fwy diogel na phennau a wynebau agos, mae'n ddoeth osgoi pobl sy'n trin gwrthrychau ac yn pasio nhw o gwmpas. Gall Palas Hwyl bychan olygu nad oes angen i chi wneud llawer i aros yn diogel, ond efallai y byddwch eisiau:

- Marcio mannau ar y llawr neu ddaear i ddangos i bobl pa mor bell i ffwrdd o'i gilydd y dylent eistedd neu sefyll.
- Gadewch gatiau neu ddrysau ar agor fel nad oes angen i bobl gyffwrdd â'r handlenni a golchwch arwynebau y mae nifer o bobl yn cyffwrdd â nhw'n rheolaidd. Dyma awgrymiadau Sefydliad Iechyd y Byd ar lanhau ardaloedd cyhoeddus.
- Cadwch ffenestri ar agor i helpu cylchrediad aer mewn digwyddiad dan do.
- Gwisgwch orchudd wyneb, gan annog eraill i wneud yr un peth. Gallai parêd o orchuddion wyneb wedi'u haddurno fod yn rhan o'ch Palas Hwyl. Mae gorchuddion

wyneb yn cynnig mwy o amddiffyniad dan do. Meddyliwch hefyd am gyfranogwyr y mae angen iddynt weld wynebau, fel y rhai sy'n darllen gwefusau.

- Darparwch finiau er mwyn i bobl daflu menig neu fygydau wedi'u defnyddio pan fyddant yn gadael.
- Gofynnwch i bobl ddefnyddio eu cyfarpar eu hunain (e.e. papur, beiros) neu darparwch nhw mewn hambwrdd llydan yn hytrach na chynhwysydd y rhoddir llaw ynddo. Darparwch hambwrdd arall ar gyfer deunyddiau wedi'u defnyddio.
- Os gallwch, darparwch orsaf golchi dwylo gyda sebon, dŵr (dŵr poeth yn ddelfrydol), tywelion papur, a bin, neu orsaf diheintio dwylo. Bydd angen glanhau gorsafoedd hylendid hefyd.
- Mewn gofod ehangach meddyliwch am sut y bydd pobl yn symud o gwmpas. System unffordd? Marciau ar y llawr? Arwyddion? Faint o bobl all gymryd rhan, o ystyried cadw pellter cymdeithasol?

Mae'n annhebygol y bydd angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer Palas Hwyl Bychan, ond os ydych yn ei gynnal trwy eich lleoliad neu swydd, gwiriwch ei fod yn ddilys o hyd yn ogystal â'r amodau angenrheidiol i'w gadw'n ddilys.
Os yw'n ymddangos na fydd eich Palas Hwyl mor fychan wedi'r cyfan, gwiriwch y canllawiau manylach ar gyfer eich amgylchiadau.
Mae gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y DU ganllawiau gweithle yma, gyda mwy o fanylion ar lanhau, cadw pellter, gorchuddion wyneb etc.
Dyma ganllawiau'r DU ar gyfer diwydiannau amrywiol, lleoliadau treftadaeth, atyniadau ymwelwyr, siopau.
Canllawiau'r DU ar gyfer cyfleusterau chwaraeon awyr agored ac ar gyfer mannau addoli.
Dyma rai canllawiau hygyrchedd manwl gan y Rhwydwaith Cydweithio ar Anableddau ac Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol East Anglia

A darperir arweiniad defnyddiol cyffredinol yma (nad yw'n cymryd y pandemig i ystyriaeth).

BETH RYDW I'N GWNEUD NAWR?

Ydych chi'n barod i greu Palas Hwyl Bychan ar 3 neu 4 Hydref?

Hyd yn oed os nad ydych yn gwybod yn union beth y byddwch efallai yn ei wneud ar y diwrnod, y bwriad i wneud i rywbeth ddigwydd yn eich ardal leol yw'r unig beth y mae ei angen arnoch i gychwyn arni.

I greu Palas Hwyl Bychan ar 3 a 4 Hydref, ewch i www.funpalaces.co.uk/cy/ a chofrestrwch gyda ni, gan ddilyn y camau hyn:

1. Cliciwch y botwm "Creu Palas Hwyl".
2. Crëwch gyfrif trwy nodi eich enw ac e-bost:
    A. Byddwch yn derbyn e-bost i gadarnhau eich cyfrif - gwiriwch eich ffolder post sothach os nad ydych yn gweld hwn yn eich blwch post.
    B. Cofiwch roi tic yn y blwch 'Cylchlythyr Crewyr' i dderbyn e-bost rheolaidd sy'n cynnwys awgrymiadau a chyhoeddiadau defnyddiol ar gyfer Crewyr Palasau Hwyl.
3. Pan fyddwch wedi creu eich cyfrif, gallwch gofrestru eich Palas Hwyl ar y map 2020 swyddogol trwy nodi'r wybodaeth a ganlyn:
    A. Rhowch enw i'ch Palas Hwyl
    B. Nodwch fanylion byr yr hyn a allai fod yn digwydd ar y dydd
    C. Nodwch gyfeiriad eich Palas Hwyl (os nad oes gennych gyfeiriad wedi'i gadarnhau gallwch nodi eich cyfeiriad eich hun a'i newid wedyn. Os yw eich Palas Hwyl yn digwydd ar draws stryd gyfan, nodwch gôd post y stryd honno).
    Ch. Uwchlwythwch lun sy'n disgrifio syniad eich Palas Hwyl neu eich ardal leol (dewisol).
    D. Cadwch eich manylion, wedyn ewch i www.funpalaces.co.uk/cy/find-a-fun-palace/ i wirio bod eich Palas Hwyl wedi ymddangos ar y map
4. Gallwch olygu neu ddiweddaru eich Palas Hwyl wrth i'ch syniad ddatblygu trwy fewngofnodi'n ôl i'ch cyfrif yn www.funpalaces.co.uk/cy/login/
5. Oes angen cymorth arnoch? Gyrrwch e-bost i hello@funpalaces.co.uk neu gadewch neges ar 0208 692 4446, est 203 a byddwn yn cysylltu'n ôl â chi mor fuan ag y gallwn.

LLEDAENU'R GAIR AM EICH PALAS HWYL BYCHAN (NEU DDIM MOR FYCHAN)

Efallai eich bod wedi creu Palas Hwyl mwy sylweddol yn y gorffennol neu efallai mai dyna eich un cyntaf, gall fod yn Balas Hwyl bychan iawn neu ddim mor fychan. Ni waeth p'un a ydych yn rhannu sgiliau gwau gyda chymdogion, trefnu 'amgueddfa' neu 'oriel' leol gyda'ch stryd neu'n mynd ar-lein i rannu arddangosiad coginio, rydym am gynnwys pobl leol yn eich Palas Hwyl a rhannu'r newyddion gwych bod eich digwyddiad yn un o nifer mawr sy'n digwydd ar draws y DU ac yn rhyngwladol.

PECYN CYMORTH CYHOEDDUSRWYDD

I ledaenu'r gair am eich Palas Hwyl, bwrw golwg ar Becyn Cymorth Cyhoeddusrwydd y Palasau Hwyl.
Mae'r pecyn yn llawn syniadau i helpu gyda phopeth o hysbysebu i ymdrin â'r wasg. Eleni, rydym yn gwneud tri awgrymiad ychwanegol hefyd - rydym yn gobeithio y byddant o fudd i chi.

1. **Os oes angen i chi gadw fe'n fach**

- Mae Palasau Hwyl i bawb, ond efallai na fydd gan eich Palas Hwyl le i bawb ar yr un pryd. Efallai y byddwch eisiau cyfyngu eich hysbysebu i'ch ardal leol iawn, ond gwnewch ymdrech i wahodd pobl na fyddech yn cwrdd â nhw fel arfer.
- Lawrlwythwch ein gwahoddiadau Palasau Hwyl, llenwch nhw i mewn a phostiwch nhw trwy ddrysau eich cyfeillion a chymdogion (hyd yn oed y rhai nad ydych wedi siarad â nhw).

2. **Gall nifer mawr o leisiau bychain greu synau mawrion**

Trwy greu Palas Hwyl rydych yn ymuno â chymuned ryngwladol o bobl sy'n credu bod diwylliant sy'n cael ei greu gan, dros a gyda phawb wrth wraidd bywyd lleol. Rydym yn creu Palasau Hwyl gyda'n gilydd ar benwythnos cyntaf mis Hydref i ddangos i lywodraethau a'r bobl allweddol sy'n gwneud penderfyniadau pa mor bwysig y mae hyn yn ein bywydau.

- Helpwch ledaenu ymwybyddiaeth o'r Palasau Hwyl trwy roi poster *Palasau Hwyl yn Digwydd Yma* yn eich ffenest neu ardd flaen. Gallwch ei lawrlwytho yma i'w argraffu (os na allwch argraffu gallwn anfon rhai atoch chi yn y post, ffoniwch ni ar 0208 692 4446 est 203 neu gyrrwch e-bost i hello@funpalaces.co.uk)
- Cyfryngau cymdeithasol #FunPalaces: Rhowch wybod i ni beth sydd wedi bod yn digwydd yn eich Palas Hwyl ar Twitter trwy dagio ni a defnyddio'r hashnod #PalasauHwyl. Anogwch eraill i wneud yr un peth trwy arddangos yr hashnod yn amlwg yn eich Palas Hwyl. Bob blwyddyn rydym wedi adeiladu digon o fomentwm i achosi #PalasauHwyl i drendio ar Twitter - fe geisiwn ni wneud hyn eto!

3) **Y wasg leol**

Cysylltwch â'r papurau newydd, gorsafoedd radio a blogiau lleol am eich Palas Hwyl. Hyd yn oed os yw eich Palas Hwyl yn fychan iawn, mae'n bosib y bydd gan newyddiadurwyr ddiddordeb o hyd yn yr effaith bositif ar eich cymuned a'r ffaith eich bod yn rhan o ddigwyddiad sy'n digwydd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Bwrw golwg ar adran 'gweithio gyda'r cyfryngau a'r wasg' y Pecyn Cymorth Cyhoeddusrwydd ar y wefan Palasau Hwyl am fwy o wybodaeth.

CHWYLDROADAU BYCHAIN I'W HYSBRYDOLI

Ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau yn y DU, mae crewyr Palasau Hwyl wedi bod wrthi'n rhannu awgrymiadau ymarferol, camau bychain y gall unrhyw un eu cymryd i gysylltu ychydig bach yn fwy yn eu cymuned leol neu dreulio amser hunanynysu yn gwneud rhywbeth creadigol. Mae'r syniadau hyn yn gweithio ar-lein ac ODDI ar-lein ac maent i gyd ar gael ar dudalen Chwyldroadau Cysylltiad Bychain y Wefan Palasau Hwyl: https://funpalaces.co.uk/cy/chwyldroadau-cysylltiad-bychain/

Os ydych yn chwilio am syniadau ar gyfer eich Palas Hwyl, maent yn fan cychwyn gwych (ac oes gennych chi syniad yr hoffech ei rannu ar y dudalen, cysylltwch â ni). Mae'r Palasau Hwyl yn ymwneud â rhannu sgiliau, felly meddyliwch am sut y gallwch amlygu'r syniadau hyn yn eich Palas Hwyl gydag elfen o waith ar y cyd.Dyma rai er mwyn i chi gychwyn arni, ond porwch drwy'r dudalen we hefyd:

Creaduriaid Cegin: https://funpalaces.co.uk/cy/chwyldroadaubychain-4-creaduriaid-cegin/

Creu Bynting papur: https://funpalaces.co.uk/cy/chwyldroadaubychain-3/

Dyma ragor o syniadau, mae'n ddrwg gennym mai dim ond yn Saesneg y maen nhw ar gael ar hyn o bryd.

Gwnewch bapurau hadau fel rhoddion (efallai y gallech gasglu hadau ar daith gerdded wrth gadw pellter a rhannu'r cyfarwyddiadau): https://funpalaces.co.uk/tinyrevolutions-make-seed-papers/

Cylchgrawn Cwarantîn (creu cylchgrawn lleol): https://funpalaces.co.uk/tinyrevolutions-quaranzine/

Recordiwch synau eich cartref (a allech chi wahodd pobl i ymuno â'ch cerddorfa sain ar-lein?) https://funpalaces.co.uk/tinyrevolutions-of-sonic-connection/

Bynting cymunedol (gall eich stryd addurno ei hun): https://funpalaces.co.uk/cy/chwyldroadaubychain-3/

Prydau hawdd (allech chi a'ch ffrindiau gymryd tro i rannu gwledd ar-lein dros y penwythnos?) https://funpalaces.co.uk/tinyrevolutions-lowspoonmeals/

Adeiladu eich drysau tylwyth teg eich hun: https://funpalaces.co.uk/tinyrevolutions-the-fairy-doors-of-leith/

Mabwysiadu planhigyn ar dir 'segur' (mae mis Hydref yn amser da i blannu prysgwydd, planhigion lluosflwydd a bylbiau): https://funpalaces.co.uk/tinyrevolutions-adopt-a-plant/

Pom-poms i'w rhannu https://funpalaces.co.uk/tinyrevolutions-pom-pom-revolution/

Cardiau post dawns (allech chi gael sesiwn ddawns yn y parc?): https://funpalaces.co.uk/tinyrevolutions-physical-postcards-of-dance/

Creu enfys natur: https://funpalaces.co.uk/tinyrevolutions-nature-rainbow/

Cydnabod yr anawsterau rydym wedi bod yn eu profi wrth i ni fwynhau ailgysylltu â'n gilydd: https://funpalaces.co.uk/tinyrevolutions-sharing-joy/

I rannu'r canllaw hwn gyda rhywun oddi ar-lein os nad oes gennych fynediad i argraffydd, cysylltwch â ni yn hello@funpalaces.co.uk neu gadewch neges ar 0208 692 4446 est 203 a gallwn anfon copïau atoch trwy'r post.

I gael y fersiwn digidol diweddaraf o'r wybodaeth hon a mwy o adnoddau i'ch helpu cynllunio Palas Hwyl, ewch i'r dudalen Pecynnau Cymorth ar y wefan Palasau Hwyl: www.funpalaces.co.uk/cy